Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Wythnos Gwaith Cymdeithasol a Chynadleddau 2027

Cynhelir Wythnos Gwaith Cymdeithasol 2027 rhwng **15 a 19 Mawrth 2027.** Byddwn ni'n cynnal dwy gynhadledd mewn person yn

ystod yr wythnos ar 16 ac 18 Mawrth.

Cyhoeddwyd gyntaf: 4 February 2025
Diweddariad olaf: 26 October 2026

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf. Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/gweithwyr-cymdeithasol/wythnos-gwaith-cymdeithasol am y fersiwn diweddaraf.

Cynhelir Wythnos Gwaith Cymdeithasol 2027 rhwng **15 a 19 Mawrth 2027.** Byddwn ni'n cynnal dwy gynhadledd mewn person yn ystod yr wythnos.

Dyddiadau i’r dyddiadur: Cynadleddau gwaith cymdeithasol Gofal Cymdeithasol Cymru 2027

“Gwaith cymdeithasol yn yr 21ain ganrif yng Nghymru”

- 16 Mawrth, Venue Cymru, Llandudno
- 18 Mawrth, Gerddi Soffia, Caerdydd

Mae'r cynadleddau yn agored i unrhyw un sydd â diddordeb mewn gwaith cymdeithasol, yn enwedig gweithwyr proffesiynol a myfyrwyr gwaith cymdeithasol.

Byddwn ni’n edrych ar sut mae gwaith cymdeithasol yn esblygu yng Nghymru. Ymunwch â ni i:

- gael eich ysbrydoli gan weithwyr proffesiynol, arbenigwyr, ymchwilwyr, a phobl sydd â phrofiad uniongyrchol ym maes gwaith cymdeithasol
- rannu heriau a phrofiadau bywyd go iawn, a ffyrdd arloesol o weithio
- cysylltu â phobl eraill sydd â’r un gwerthoedd a’r un pwrpas â chi.

Rhowch y dyddiadau hyn yn eich calendr a bydd y cyfnod cofrestru’n agor ar y dudalen yma **ddydd Mawrth 1 Rhagfyr.**